Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfod: | Bwrdd Plismona | |
| Lleoliad: | OPCC Conf. Room | |
| Dyddiad: | 5 Mehefin 2017 | |
| Amser: | 14:30 – 16:30 | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Arol. Anthony Evans, Swyddog Staff (AE)<br>DS Sian Davies, Swyddog Staff (DS SD)<br>PC Stuart Davies, Swyddog Staff Dros Dro (PC SD)<br>Ms Carina Giannuzzi, Iechyd Meddwl/Unigolion Coll (CG)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR)<br>Miss Mair Harries, Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/05/2017 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 2161** | **Darparu crynodeb o wasanaeth oedolion priodol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona, gan gynnwys gwasanaethau gwirfoddol ac am dâl a threuliau teithio.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2162** | **CHTh i drafod arsylwadau data arbedion Cwmni TGCh yr Heddlu gyda Bwrdd Cwmni TGCh yr Heddlu.** | **Parhaus** |
| **PB 2163** | **Swyddog Ymgysylltu Cymunedol SCHTh i rannu amserlen o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol y Comisiynydd â thimoedd plismona bro a chomanderiaid URS.** | **Parhaus** |
| **PB 2164** | **Rhannu adroddiad 2016/17 Gwasanaethau Dioddefwyr Gwrthdrawiadau Ffyrdd Brake â Goleudy a'r UPFf gan ddiolch iddynt am eu hadroddiad a'u cymorth parhaus.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2165** | **Yr heddlu i gadarnhau enw cynrychiolydd gweithredol ar gyfer y Panel Ymgynghorol Ymchwilio i Gam-drin Pobl Oedrannus.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2166** | **Cyflwyno achos busnes ar gyfer cydweithio o ran gwasanaethau cyfreithiol mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona mor fuan â phosibl.** | **Parhaus** |
| **PB 2167** | **Yr heddlu i baratoi ymateb i ohebiaeth Heddlu Swydd Hampshire mewn perthynas â rhybuddion syml a rhannu hyn â'r CHTh cyn ei gyflwyno.** | **Parhaus** |
| **PB 2168** | **PSA i ymgysylltu ag AD er mwyn mesur costau gwaith paratoadol mewn perthynas â phrentisiaethau er mwyn cyflwyno cais i adfer y** | **Cwblhawyd** |

| | | |
|---|---|---|
| | **costau wrth Lywodraeth Cymru.** | |
| **PB 2169** | **Gwerthusiad 6 wythnos o'r rotas newydd i'w gyflwyno mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona mewn 4 wythnos.** | **Parhaus** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 23/06/2017** | | |
|---|---|---|
| **Rhif y penderfyniad** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **I'w symud yn ei flaen gan** |

**2. Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 23 Mai a materion yn codi**

Dywedodd y CHTh y dylid cyfeirio unrhyw faterion o ran y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol at MH.

Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol

PB 2160: cynllun hyfforddi iechyd a diogelwch. Yr Heddlu i ddarparu costau hyfforddi i'r bwrdd. Dywedodd y CHTh bod cynnydd yn cael ei wneud a holodd pryd oedd y Grŵp Prif Swyddogion nesaf. Dywedodd y DBG bod cyfarfodydd GPS yn cael eu cynnal yn wythnosol. Dywedodd y DBG bod HDP ar ei hôl hi o ran hyfforddiant ond byddai'n cael ei gwblhau mewn camau.

PB 2161: Darparu crynodeb o wasanaeth oedolion priodol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Plismona, gan gynnwys gwasanaethau gwirfoddol ac am dâl a threuliau teithio. Mae'r CHTh wedi derbyn crynodeb o'r costau. Dywedodd CM bod y Cyfarwyddwr Comisiynu wedi holi ynghylch priodoldeb y Bwrdd Comisiynu'n monitro hyn. Mae'r CHTh a'r PG yn cytuno y dylid ei fonitro drwy drefniadau llywodraethu'r heddlu.

PB 2165: Yr heddlu i gadarnhau enw cynrychiolydd gweithredol ar gyfer y Panel Ymgynghorol Ymchwilio i Gam-drin Pobl Oedrannus. Cadarnhawyd mai DCI Gary Phillips yw'r cynrychiolydd.

**Cam gweithredu: CHTh i e-bostio Sarah Wyddal ym Mhrifysgol Aberystwyth i ddiweddaru ynghylch cynrychiolydd yr Heddlu ar y Panel Ymgynghorol Ymchwilio i Gam-drin Pobl Oedrannus.**

PB 2168: PSA i ymgysylltu ag AD er mwyn mesur costau gwaith paratoadol mewn perthynas â phrentisiaethau er mwyn cyflwyno cais i adfer y costau wrth Lywodraeth Cymru. Trefnwyd cyfarfod rhwng y PSA, PS, Pennaeth AD a Phennaeth Dysgu a Datblygu. Byddai'r CHTh yn cael gwybodaeth bellach yn dilyn y cyfarfod hwn.

**Cam gweithredu: PG i siarad ag Angela Williams mewn perthynas â gwaith paratoadol o ran prentisiaethau.**

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

Diweddariad Gweithredol

Dywedodd y PG y byddai'n rhoi ymateb ysgrifenedig i'r CHTh mewn perthynas â dau swyddog y mae'r CHTh wedi gohebu â'r PG yn eu cylch. Diweddarodd y PG y CHTh ar faterion amrywiol, gan gynnwys canfod person coll o Gwbert a oedd wedi marw ar draeth Llangrannog, myfyriwr o Brifysgol Aberystwyth sydd wedi ei gyhuddo o stelcio, aflonyddu a dau achos o feddu ar gyffuriau, a digwyddiad domestig ac arfau saethu ar 27 Mai mewn perthynas â diogelwch dau unigolyn o Foncath ar wyliau yn Tenerife. Hysbysodd y PG y Bwrdd bod 5 swyddog wedi dioddef ymosodiadau ers y Bwrdd Plismona diwethaf. Mae 3 unigolyn wedi'u cyhuddo yn dilyn ymchwiliad ar y cyd ag Adnoddau Naturiol Cymru.

Diweddarodd y PG y Bwrdd ar waith da gan yr heddlu, gan gynnwys datrys cyfres o fyrgleriaethau yn y Drenewydd, SCCH yn adrodd am arf saethu mewn car heb ofalydd, a SCCH yn galw am gymorth ar gyfer gwiriad lles plentyn a arweiniodd at atafaelu gwerth £8000 o gyffuriau. Dywedodd y PG bod Brian Richard Buckle wedi ymddangos gerbron Llys y Goron Abertawe a'i fod wedi'i ddyfarnu'n euog am 16 achos o gam-drin rhywiol na ddigwyddodd yn ddiweddar y erbyn unigolyn dros gyfnod o ddwy flynedd. Dedfrydwyd Mr Buckle i 33 mlynedd o garchar. Derbyniodd yr achos gryn dipyn o sylw yn y cyfryngau. Dywedodd y PG bod Ymgyrch Griffin yn cael ei chynnal mewn mannau prysur o ran twristiaid gan sicrhau bod staff yn derbyn cyngor ynghylch sefyllfaoedd brys yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol ledled y DU. Cadeiriodd y PG Grŵp Rheoli Troseddau Bywyd Gwyllt Cymru Gyfan ar 24 Mai. Dywedodd y PG ei fod ef a'r CHTh wedi ymweld ag Eisteddfod yr Urdd ar 29 Mai, a dywedodd y PG ei fod hefyd wedi mynychu parti gardd ym Mhalas Buckingham y dydd Iau blaenorol.

Diweddariad Sefydliadol

Dywedodd y PG bod 4 aelod staff wedi'u hatal o'u gwaith ar hyn o bryd.

Hysbysodd y PG y Bwrdd bod AHEM yn ymchwilio HDP drwy gydol yr wythnos a bod grwpiau ffocws yn cael eu cynnal yn ystod yr archwiliad. Cyfarfu'r CHTh a'r PG â Wendy Williams, Arolygydd Heddluoedd Ei Mawrhydi, yn unigol. Hysbysodd y PG y Bwrdd bod camerâu fideo a wisgir ar y corff yn cael eu cyflwyno ledled yr ardal heddlu ac y byddai Bwrdd Arolygwyr yn cael ei gynnal ymhen pythefnos.

Holodd y CHTh am strwythurau llywodraethu mewn perthynas â'u cydblethu â SCHTh, ac yna ymgysylltu â'r Heddlu. Soniodd y CHTh am bwysigrwydd cael eglurder o ran pwy sydd â chyfrifoldeb i'r bwrdd gweithredol. Dywedodd CM ei bod wedi cwrdd â Paul a'r DBG ar wahân er mwyn trafod symud hyn ymlaen.

**Cam gweithredu: AE i roi copi o'r Strwythurau Llywodraethu i SCHTh.**

Sicrhaodd trafodaeth fer gyd-gymorth rhwng Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu De Cymru ar gyfer Gêm Derfynol Cynghrair Pencampwyr UEFA yng Nghaerdydd.

Dywedodd y PG bod y data Bodlonrwydd Dioddefwyr diweddaraf wedi'i dderbyn a bod HDP wedi symud o'r 32$^{ain}$ safle i'r 17$^{eg}$ safle o fewn 6 mis.

**4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

Cenedlaethol

Cynghorodd y CHTh bod Prif Weithredwr CCHTh wedi ymddiswyddo yn ddiweddar.

Lleol

Dywedodd y CHTh ei bod hi wedi bod yn brofiad cadarnhaol cael mewnbwn gydag AHEM. Roedd y CHTh yn hyderus bod SCHTh a HDP yn symud i'r cyfeiriad cywir. Trafododd y CHTh y rôl Dinasyddion Mewn Plismona a'r Ganolfan Plismona Bro a phwysleisiodd bwysigrwydd cael eglurder o ran y rolau a fydd yn cael eu creu.

Dywedodd y CHTh a'r PG eu bod nhw eisiau cwrdd â'r ganolfan plismona bro er mwyn archwilio i'w swyddogaethau a sut y mae'n bodloni'r cynllun trosglwyddo.

**Cam Gweithredu: Y PG a'r CHTh i ymgysylltu â Phlismona Bro er mwyn archwilio i swyddogaethau'r rôl Dinasyddion Mewn Plismona.**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â Chyfathrebu Corfforaethol a'u gwaith ochr yn ochr â SCHTh. Awgrymodd y PG bod y CHTh yn dweud beth yw ei ddisgwyliadau o'r adran Cyfathrebu Corfforaethol er mwyn symud ymlaen.

**Camau gweithredu: CM i gwrdd â Phennaeth yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol er mwyn trafod Cytundeb Lefel Gwasanaeth.**

**5. Pwnc misol i'w drafod: Iechyd Meddwl**

Cychwynnodd cyfarfod y Bwrdd Plismona gyda'r pwnc misol ar gyfer mis Mehefin, sef Iechyd Meddwl. Gwahoddodd y CHTh Carina Gianuzzi i gyflwyno'r pwnc i'r Bwrdd. Dechreuodd CG drwy gyflwyno'r Rota Brysbennu a gychwynnodd ym mis Ionawr 2015. Mae'r Rota Brysbennu'n rhedeg ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Hysbyswyd y Bwrdd bod y Rota Brysbennu'n rhedeg yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Hysbysodd CG y Bwrdd bod y Rota Brysbennu'n cynnwys un swyddog parhaol, un ymarferydd iechyd meddwl llawn amser a chohort o swyddogion. Roedd y cynllun ar gyfer dyfodol y Gwasanaeth Iechyd Meddwl o fewn Hywel Dda yn cynnwys ei gynnal 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â rhai o'r heriau a'r cynlluniau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys bwriad Bwrdd Iechyd Hywel Dda i gynnal Caffi Argyfwng ym mhob un o'r tair sir. Cadarnhaodd y PG wrth y Bwrdd ei fod wedi cwrdd â Carol Shillabeer a'i bod hi'n awyddus i gyflwyno gwasanaeth tebyg ym Mhowys.

Holodd y CHTh am effaith y datblygiadau hyn a sut y byddant yn cael ei monitro ar gyfer dibenion tystiolaethol. Dywedodd y PG y byddai adborth o'r gymuned mewn perthynas â sut maen nhw wedi cael eu trin yn ddangosydd allweddol o'r ansawdd gwasanaeth.

Dywedodd CG y byddai gwerthusiad o'r Gwasanaeth Brysbennu pan mae'r diweddariadau wedi'u gweithredu. Holodd y CHTh am ddiwaethygu digwyddiadau a sut y byddent yn cael eu monitro. Disgrifiodd CG ddigwyddiad diweddar a oedd wedi'i ddiwaethygu o ddigwyddiad difrifol a oedd yn ymwneud ag aelod o'r cyhoedd.

Tynnodd y CHTh sylw'r Bwrdd at Iechyd Meddwl fel blaenoriaeth yn y Cynllun Heddlu a Throseddu a gofynnodd sut y byddai HDP yn gweithredu hynny. Gofynnodd y CHTh am ddiweddariad mewn perthynas â hyfforddiant Golau Glas Mind hefyd. Dywedodd CG bod hyfforddiant Golau Glas Mind ar gyfer rheolwyr a'i fod yn ymwneud â sut i ofalu am eu staff. Dywedodd y PG mai'r Prif Uwch-arolygydd Claire Parmenter yw Arweinydd yr Heddlu ar Iechyd Meddwl, a'i bod hi a CG yn eistedd ar y Grŵp Prosiect ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl.

Holodd SR am yr ystadegau a ddarparwyd gan CG a'r rhesymau dros gadw mewn 5 gorsaf heddlu'n cael ei nodi fel 'Anhysbys'. Dywedodd CG nad oedd hi'n gwybod y rheswm am hyn, ond bod pob achos o gadw'n cael ei adolygu. Dywedodd DS SD bod y ffigurau a ddarperir yn flaenorol i'r ap yn cael ei osod ar ddyfeisiau llaw.

Holodd y CHTh am y broses ar gyfer pobl o dan 18 oed yn cael eu cadw. Dywedodd CG bod hyfforddiant newydd ar gyfer swyddogion heddlu'n pwysleisio na ddylid dod ag unigolion o dan 18 oed i'r ddalfa waeth pa beth bynnag yw'r amgylchiadau.

Tynnodd SR sylw'r Bwrdd at risgiau mewn perthynas â hyfforddiant. Dywedodd y PG bod hyn yn ymwneud â'r galw o gwmpas hyfforddiant a'i bod hi'n anodd gosod pobl ar gyrsiau hyfforddi oherwydd nifer y materion eraill sydd angen sylw. Dywedodd CG bod hyfforddiant Iechyd Meddwl yn rhan o'r hyfforddiant cyfnod prawf.

Holodd y CHTh am werthusiad cytunedig o'r gwasanaeth iechyd meddwl. Dywedodd CG bod Julie Denley o Hywel Dda wedi comisiynu'r gwerthusiad.

**Cam gweithredu: SR i holi ynghylch canlyniadau'r gwerthusiad a gomisiynwyd gan Hywel Dda o gwmpas y gwasanaeth Iechyd Meddwl.**

Hysbysodd CG y Bwrdd bod gwaith partneriaeth arall yn cael ei gwblhau mewn perthynas ag Iechyd Meddwl gan gynnwys grŵp Gorchwyl a Gorffen yn Hywel Dda i edrych ar weithdrefnau'r adran ddamweiniau ac achosion brys a grŵp trawsgludo yn Hywel Dda a Phowys.

## 6. Materion i'r Hystyried

### a. Galluoedd Arbenigol

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r llythyr a dderbyniwyd ar 22 Mai 2017 mewn perthynas â'r Rhaglen Galluoedd Arbenigol. Er yn gefnogol mewn egwyddor i nifer o'r cynigion, roedd pryderon mewn perthynas â rhai elfennau ac awgrymwyd y dylid ymgysylltu â DBG Cymru Gyfan er mwyn archwilio i opsiynau. Cytunwyd bod angen i ni ddiogelu darpariaeth gwasanaeth o fewn Dyfed-Powys yn y pen draw.

**Cam gweithredu: Y CHTh i ymateb i ymgynghoriad CCHTh yn unol â thrafodaethau.**

**Cam gweithredu: Y DBG i ymgysylltu â DBG Cymru Gyfan er mwyn archwilio i opsiynau mewn perthynas â darpariaeth Galluoedd Arbenigol.**

Gadawodd y DBG a DS SD y cyfarfod ar ddiwedd y drafodaeth hon.

**b. Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Fforensig**

Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â'r Rhaglen Gwasanaethau Fforensig a barn Heddlu Dyfed-Powys. Penderfynwyd y dylid cynnal trafodaethau pellach mewn perthynas â'r mater hwn.

**7. Unrhyw Fusnes Arall**

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 23/05/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2170** | **CHTh i e-bostio Sarah Wyddal ym Mhrifysgol Aberystwyth i ddiweddaru ynghylch cynrychiolydd yr Heddlu ar y Panel Ymgynghorol Ymchwilio i Gam-drin Pobl Oedrannus.** | **CHTh** |
| **PB 2171** | **PG i siarad ag Angela Williams mewn perthynas â gwaith paratoadol o ran prentisiaethau.** | **PG** |
| **PB 2172** | **AE i roi copi o'r Strwythurau Llywodraethu i SCHTh.** | **AE** |
| **PB 2173** | **Y PG a'r CHTh i ymgysylltu â Phlismona Bro er mwyn archwilio i swyddogaethau'r rôl Dinasyddion Mewn Plismona.** | **PG a'r CHTh** |
| **PB 2174** | **CM i gwrdd â Phennaeth yr Adran Cyfathrebu Corfforaethol er mwyn trafod Cytundeb Lefel Gwasanaeth.** | **CM** |
| **PB 2175** | **SR i holi ynghylch canlyniadau'r gwerthusiad a** | **SR** |

| | | |
|---|---|---|
| | **gomisiynwyd gan Hywel Dda o gwmpas y gwasanaeth Iechyd Meddwl.** | |
| **PB 2176** | **Y CHTh i ymateb i ymgynghoriad CCHTh yn unol â thrafodaethau.** | **CHTh** |
| **PB 2177** | **Y DBG i ymgysylltu â DBG Cymru Gyfan er mwyn archwilio i opsiynau mewn perthynas â darpariaeth Galluoedd Arbenigol.** | **DBG** |